

Tîm fferyllol yfory

Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant
chychwynnol fferyllwyr, technegwyr fferyllol
a staff cefnogi fferyllfa yn y dyfodol

Rhagair

Mae'n amlwg bod gwasanaethau'r GIG a gofal iechyd yn newid. Mae rolau gweithwyr fferyllol proffesiynol a'u cyfraniadau i ofal iechyd a iechyd y cyhoedd yn tyfu, ac felly hefyd disgwyliadau'r cyhoedd. Mae'n ymddangos y bydd hyn yn parhau am nifer o flynyddoedd. Wrth i rolau newid, rhaid i addysg a hyfforddiant hefyd newid fel y gall gweithwyr fferyllol proffesiynol ymateb i'r heriau newydd y maent yn eu wynebu. Gwahoddiad i randdeiliaid roi eu barn i ni ynglŷn â sut y dylai addysg a hyfforddiant y tîm fferyllol esblygu er mwyn ymateb i'r heriau hynny yw'r papur hwn.

Mae'r papur yn rhoi ystyriaeth i'r polisiau gofal iechyd y disgwyliwn y bydd gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gweithio iddynt yn y dyfodol. Mae'n trafod polisiau ar gyfer iechyd, fferylliaeth ac addysg fferyllol ym mhob un o wledydd Prydain Fawr¹. Mae hefyd yn dod i gasgliadau cyntaf ynglŷn â beth mae'r polisiau yn ei olygu ar gyfer addysg a hyfforddiant y tîm fferyllol.

Dyma'r tro cyntaf i ni edrych ar addysg a hyfforddiant y tîm fferyllol cyfan. Rydym eisiau defnyddio'r papur hwn i gael teimlad o sut y dylai'r tîm gael ei addysgu a'i hyfforddi – yn ogystal â deall anghenion addysg a hyfforddiant aelodau unigol y tîm.

Rydym eisiau defnyddio'r papur hwn fel cyfle i wirio ein syniadaeth ynglŷn â'r cyfeiriad y dylai addysg ffeyrllol fynd iddo, ac i wirio ai'r casgliadau yr ydym wedi dod iddynt yw'r rhai cywir. Os bydd ein casgliadau'n gywir, mae'n amlwg y dylem seilio ein safonau addysg a hyffroddiant newydd arnynt. Rydym hefyd eisiau ystyried pa mor realistig yw ein dyheadau ni - a rhai fferylliaeth. Rydym yn hapus i herio darparwyr addysg a hyfforddiant, pan mai hynny yw'r peth iawn i'w wneud. Efallai y bydd y safonau yr ydym yn eu gosod yn ymestynnol, ac iawn yw hynny. Fodd bynnag, rhaid iddynt hefyd fod yn gyraeddawy a fforddiadwy. Croesawn eich barn.

Duncan Rudkin, Prif Weithredwr a Chofrestrydd
Nigel Clarke, Cadeirydd



Nigel Clarke
Cadeirydd



Duncan Rudkin
Prif Weithredwr a
Chofrestrydd

¹ Mae gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol gyfrifoldeb statudol am reoleiddio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon yw'r rheoleiddiwr ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Addysgu'r tîm fferyllol

Mae'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) wedi ymrwymo i ddiogelu, hybu a gwella iechyd a diogelwch cleifion a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Un o'r prif ffyrdd yr ydym yn gwneud hyn yw drwy osod y safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol y tîm fferyllol.

Cefndir y polisi

Yr hyn y mae llywodraethau a rhanddeiliaid eraill wedi ei ddweud wrthym am bolisi iechyd

Mae gwledydd Prydain Fawr wedi datblygu eu gweledigaethau eu hunain ar gyfer gofal iechyd, ac mae'r rhain yn effeithio ar sut y bydd fferylliaeth yn gweithredu yn y dyfodol. Mae gwahaniaethau o ran pwyslais rhwng gwledydd, ond credwn eu bod i gyd yn cytuno ar y blaenoriaethau canlynol:

- 1 yr angen i gael mentrau atal clefydau, a chymau uniongyrchol i hybu iechyd y cyhoedd a byw'n iach
- 2 gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio ac sy'n byw'n hwy, sydd â phroblemau ac anghenion meddygol a chymdeithasol cynyddol gymhleth – bydd y gofal hwn yn digwydd mewn ysbytai, yng nghartrefi pobl, mewn lleoliadau 'cartrefol' (megis cartrefi gofal a thai â chymorth) ac 'o bell' drwy ddefnyddio technoleg

- 3 gofal iechyd a chymdeithasol integredig wedi ei ddarparu gan dimau aml-ddisgyblaeth
- 4 ysgafnhau pwysau mewn rhannu allweddol o'r system gofal iechyd – yn arbennig mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ac mewn gofal syflaenol (er enghraifft, mewn meddygfeydd meddygon teulu a chanolfannau meddygol)
- 5 cynorthwyo'r holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol i gyflawni eu llawn botensial fel y gallant chwarae rhan mewn gwella 'canlyniadau' iechyd (sy'n cynnwys cydnabod cost a gwerth perthynol gweithwyr gofal iechyd proffesiynol)
- 6 gwella effeithlonrwydd a rheoli costau
- 7 defnyddio data, gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth er mwyn gwella ansawdd, diogelwch, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darpariaeth gofal iechyd

Os caiff y blaenoriaethau hyn eu hariannu a'u cyflawni, bydd ganddynt oblygiadau ar gyfer addysg a hyfforddiant ar draws gofal iechyd.

Yr hyn y mae llywodraethau a rhanddeiliaid eraill wedi ei ddweud wrthym ynglŷn â rôl fferylliaeth a'r tîm fferyllol yn y dyfodol

Yn ogystal â datblygu gweledigaethau ar gyfer gofal iechyd, mae gan wledydd Prydain Fawr weledigaethau a chynlluniau ar gyfer fferylliaeth. Unwaith eto, mae gwahaniaethau o ran pwyslais, ond credwn fod pob gwlad yn cytuno ar:

- 1 ddefnyddio fferylliaeth yn "llinell flaen" gofal cleifion
- 2 rôl fferylliaeth mewn cefnogi cleifion i wneud y defnydd mwyaf effeithiol a chost effeithiol o feddyginiaethau – bydd hyn o fudd i gleifion a chymdeithas yn fwy eang
- 3 defnyddio fferylliaeth i ysgafnhau'r pwysau mewn rhannau critigol y system, yn arbennig mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ac mewn gofal sylfaenol (er enghraifft, mewn meddygfeydd meddygon a chanolfannau meddygol)
- 4 defnyddio fferylliaeth i wella iechyd y cyhoedd
- 5 fferyllwyr yn chwarae rôl flaenllaw mewn gofal cleifion, ac nid dim ond yn ei gefnogi, trwy ragnodi triniaethau
- 6 yr angen am newid mewn diwylliant a newidiadau yn y gyfraith, fel y gellir gwneud y defnydd gorau o sgiliau'r tîm fferyllol², gan roi ystyriaeth i ddiogelwch ac ansawdd

Os cyflwynir y syniadau hyn ar raddfa fawr, bydd yn rhaid addysgu a hyfforddi'r tîm fferyllol yn wahanol er mwyn eu paratoi i weithio mewn ffyrdd newydd.

Caiff ein syniadaeth ynglŷn â'r ffordd o baratoi aelodau'r tîm fferyllol ar gyfer eu gyrfaedd yn y dyfodol hefyd ei heffeithio gan rai newidiadau allweddol a welwn yn digwydd, neu yr ydym yn disgwyl iddynt ddigwydd:

- 1 newidiadau gwyddonol a thechnolegol sy'n effeithio ar feddyginiaethau (er enghraifft, personoleddio a genomeg) a logisteg cyflenwad meddyginiaethau (er enghraifft, mwy o ddefnydd o roboteg ac awtomeiddiad prosesau cyflenwi)
- 2 newidiadau technolegol a chymdeithasol sy'n parhau i effeithio ar fynediad at wybodaeth a gwasanaethau cysylltiedig ag iechyd a meddyginiaethau, ac sy'n effeithio ar agweddau ac ymddygiad 'cwsmeriaid'
- 3 newidiadau anodd eu rhagfynegi i'r modelau busnes traddodiadol ym maes, ac yn gysylltiedig â, fferylliaeth a fferyllfeydd
- 4 yr angen am weithio mwy effeithiol rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob lleoliad
- 5 cynnydd parhaus yng nghyflymder pob math o newid. Mae hyn yn gosod her i addysgwyr y mae'n rhaid iddynt baratoi gweithwyr proffesiynol sy'n gallu rheoli eu hunain yn ddiogel o fewn y cyd-destun hwnnw

² Mae hyn yn cynnwys y fenter 'Ail-gydbwysu' bresennol

Yr hyn y mae llywodraethau wedi ei ddweud ynglŷn ag addysg a hyfforddiant cychwynnol aelodau'r tîm fferyllol

Mae'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu ynglŷn â gweledigaethau llywodraethau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol gweithwyr proffesiynol yn y tîm fferyllol yn amrywio o un rôl i'r llall.

Fferyllwyr: Mae llywodraethau wedi bod yn fwyaf clir ynglŷn â rôl fferyllwyr³ a'u hanghenion o ran addysg a hyfforddiant yn y dyfodol. Credwn ei bod yn rhesymol dod i'r casgliad bod angen i safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol ar gyfer fferyllwyr eu paratoi ar gyfer darparu'r gofal yr ydym wedi ei ddisgrifio uchod, ac i fod yn:

- 1 glinigwyr sy'n 'canolbwyntio ar y claf' gyda sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu da
- 2 gallu gweithio mewn timau amlbroffesiwn yn arferol
- 3 gallu addasu i weithio mewn gwahanol leoliadau, nid dim ond mewn fferyllfeydd traddodiadol neu ysbytai

Mae'r graddau MPharm sy'n bodoli ar hyn o bryd yn cynnwys profiad ymarferol o ofal sy'n canolbwyntio ar y claf a dysgu rhyng-broffesiwn. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod digon o'r naill na'r llall er mwyn i'r radd chwarae ei rhan mewn darparu fferyllwyr sy'n addas ar gyfer y rolau a ddisgrifir uchod. Rydym wedi ein hargyhoeddi gan y ddadl y dylid dwyn ynghyd y radd MPharm bresennol a hyfforddiant cyn-cofrestrriad fel y gellir rhoi gwybodaeth academaidd mewn cyd-destun yn y modd mwyaf effeithlon a'i datblygu mewn ymarfer proffesiynol. Mae cynorthwyo myfyrwyr i feddwl a gweithredu fel fferyllwyr drwy gydol eu haddysg a'u

hyfforddiant cychwynnol - fel y gallant ddatblygu a 'thyfu' i mewn i'r proffesiwn - yn syniad pwerus yr ydym yn ei gefnogi⁴.

Os oes unrhyw un yn credu nad yw addysg 'integredig' o'r budd gorau i gleifion y dyfodol a'r myfyrwyr eu hunain, mae angen i ni wybod pam.

Technegwyr fferyllol: Mae llai o sôn am dechnegwyr fferyllol na fferyllwyr mewn dogfennau polisi. Credwn fod hyn oherwydd bod llai o gytuno ynglŷn â'u rôl yn y dyfodol. Er bod llai o gytuno ynglŷn â'r rôl teimlwn y dylent, er mwyn gweithio fel aelodau effeithiol o'r tîm fferyllol, fel fferyllwyr:

- 1 allu ymddwyn yn broffesiynol er budd gorau cleifion
- 2 bod â sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i weithio'n effeithiol mewn timau aml-broffesiwn

Dylai eu haddysg a'u hyfforddiant cychwynnol ddarparu technegwyr fferyllol gyda'r sgiliau a'r galluoedd hyn.

³ *Pharmacy in England and Prescription for excellence*, yn arbennig

⁴ Caiff hyn ei egluro'n well yn Guile and Ahamed, *Modernising the pharmacy curriculum* (2009)

Fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol: Mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol ar un llaw ac aelodau eraill y tîm fferyllol ar y llaw arall. Beth bynnag fo ystod eu galluoedd, a lefel eu cymhwysedd, mae fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol unigol yn atebol am eu hymarfer proffesiynol eu hunain oherwydd maent yn weithwyr proffesiynol a reoleiddir. Mae goblygiadau hyn o ran addysg a hyfforddiant yn fawr. Rhaid i'w haddysg a'u hyfforddiant cychwynnol roi'r cymhwysedd iddynt i wneud y mathau o bethau yr ydym yn ei ddisgwyl gan weithwyr proffesiynol ym mhob maes, yn cynnwys pethau megis:

- defnyddio doethineb
- bod yn hunanymwybodol ac yn hunan-feirniadol
- rheoli amwysedd a chymhlethdod mewn byd amherffaith
- bod yn gadarn mewn amgylchiadau heriol a phan efallai na fydd ateb 'cywir' neu hawdd

Staff cefnogi fferyllfa⁵: Mae staff cefnogi fferyllfa yn chwarae rôl allweddol mewn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf. Mae cynorthwyywyr cownter meddyginiaethau (MCAs) yn staff linell flaen sy'n gweithio gyda chleifion ac aelodau eraill o'r tîm fferyllol drwy gydol y dydd. Mae cynorthwyywyr dosbarthu (DAs) yn gweithio mewn tîm o dan arolygaeth i baratoi meddyginiaethau ar gyfer cleifion. Mae nifer o aelodau staff digofrestredig fferyllfeydd yn ceisio, ac yn llwyddo i, gynnal safonau proffesiynoldeb yn eu gwaith. Fodd bynnag, maent yn atebol yn y man cyntaf i'w cyflogwr, sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol a moesegol am yr effaith a gaiff eu gwaith ar gleifion a'r cyhoedd.

Dwyn y llinynnau ynghyd

Hyd yma rydym wedi disgrifio sut a pham y mae fferylliaeth yn newid, a'r hyn a ddywedwyd wrthym – neu'r hyn y gallwn ddod i gasgliad rhesymol yn ei gylch – yw'r canlyniadau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol y tîm fferyllol. Yn gryno, credwn mai'r elfennau addysg a hyfforddiant cychwynnol a ddylai fod yn berthnasol i'r tîm fferyllol cyfan yw:

- 1 proffesiynoldeb
- 2 sgiliau cyfathrebu da
- 3 gallu gweithio mewn timau aml-broffesiwn

Yn ogystal â chynnwys y sgiliau a'r galluoedd hyn, dylai'r safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer pob aelod o'r tîm fod wedi eu seilio ar ofynion mwy penodol pob rôl.

⁵ Rydym yn gosod safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol ar gyfer staff cefnogi fferyllfa ond nid ydym yn eu rheoleiddio yn uniongyrchol.

Camau nesaf

Y ffordd ymlaen

Rydym wedi dod i rai casgliadau cychwynnol yn y papur hwn, y mae angen i ni eu profi. Os ydym yn gywir yn ein casgliadau, mae'n amlwg bod yn rhaid i ni seilio safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol arnynt. Os yw ein casgliadau'n anghywir, mae'n rhaid dweud hynny wrthym fel y gallwn ailystyried ein ffordd o feddwl. Bydd cadarnhau, gwrthod neu newid ein casgliadau cychwynnol yn ganlyniad pwysig y drafodaeth hon.

Os yw ein casgliadau'n gywir, ond bod rhwystrau i weithredu safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol newydd y credwn ni yw'r rhai cywir, mae angen i ni wybod beth yw'r rhwystrau hyn.

Adolygiad o'r safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol

Mae ein hadolygiad o'r safonau yn dechrau gyda'r papur trafod hwn⁶. Byddwn yn ymgynghori ar safonau drafft yn 2016 ac yn cyhoeddi safonau diwygiedig yn 2017.

Bydd fersiynau presennol y safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol yn parhau mewn grym hyd nes bydd ein cyngor yn cytuno ar fersiynau diwygiedig.

⁶ Oni bai am rywfaint o ddrafftio rhagarweiniol canlyniadau dysgu ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr yn 2013, y byddwn yn ymgynghori arnynt yn ddiweddarach fel rhan o'r broses hon.

Addysgu'r tîm fferyllol – cwestiynau

Cefndir y polisi

Cwestiwn 1: Yn y papur trafod hwn rydym wedi crynhoi polisiâu'r llywodraethau ar gyfer fferylliaeth yn y dyfodol. Credwn y bydd y polisiâu hyn yn golygu newidiadau i safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol ar gyfer y tîm fferyllol. A ydych chi'n meddwl bod ein disgrifiad o'r polisiâu hyn a'u heffaith ar fferylliaeth, ac ar aelodau'r tîm fferyllol, yn gywir?

Y tîm fferyllol

Cwestiwn 2: Ar sail polisiâu'r dyfodol yr ydym wedi eu disgrifio a'r casgliadau yr ydym wedi dod iddynt, a ydych chi'n cytuno y dylai'r safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol ar gyfer holl aelodau'r tîm fferyllol gynnwys set gyffredin o sgiliau a galluoedd:

- 1 proffesiynoldeb
- 2 sgiliau cyfathrebu da
- 3 gweithio effeithiol mewn timau aml-broffesiwn?

Cwestiwn 3: Beth arall ddylai fod yn gyffredin i bob rôl?

Fferyllwyr

Cwestiwn 4: Gan dderbyn bod gan addysg fferyllwyr sail eang a'i bod wedi'i hadeiladu ar sail wyddonol gadarn, a rhaid iddi barhau i fod felly, credwn y dylai tri maes gael eu datblygu yn y safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol ar gyfer fferyllwyr:

- 1 diagnosis a gwneud penderfyniadau clinigol, gan adeiladu tuag at ragnodi yn bod yn sgil graidd yn hytrach na maes ychwanegol o gymhwysedd
- 2 sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu, yn arbennig cyfathrebu â chleifion
- 3 gweithio mewn tîm aml-broffesiwn

A ydych chi'n cytuno?

Cwestiwn 5: A oes meysydd eraill y dylid eu datblygu?

Technegwyr fferyllol

Cwestiwn 6: Heblaw am y set gyffredin o sgiliau a galluoedd a ddisgrifir yng nghwestiwn 2, pa sgiliau neu alluoedd sy'n sylfaenol i fod yn dechnegydd fferyllol ac y dylid eu cynnwys mewn safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol?

Staff cefnogi fferyllfa

Cwestiwn 7: Heblaw am y set gyffredin o sgiliau a galluoedd a ddisgrifir yng nghwestiwn 2, pa sgiliau neu alluoedd sy'n rhaid eu cynnwys mewn addysg a hyfforddiant cychwynnol cynorthwywyr cownter meddyginiaethau?

Cwestiwn 8: Heblaw am y set gyffredin o sgiliau a galluoedd a ddisgrifir yng nghwestiwn 2, pa sgiliau neu alluoedd sy'n rhaid eu cynnwys mewn addysg a hyfforddiant cychwynnol cynorthwywyr dosbarthu?

Rhwystrau

Cwestiwn 9: Pa rwystrau allai effeithio ar weithrediad safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol diwygiedig, naill ai ar gyfer y tîm cyfan neu aelodau ohono?

Dweud eich barn wrthym

Rydym eisiau clywed gan y cyhoedd, cleifion a'n rhanddeiliaid fferyllol megis fferyllwyr, technegwyr fferyllol, staff cefnogi fferyllfa, myfyrwyr fferyllol a hyfforddeion cyn-cofrestriad, technegwyr fferyllol dan hyfforddiant cyn-cofrestriad a gweithwyr addysg fferyllol.

Croesawn eich barn ar unrhyw rai o'r materion sydd wedi'u cynnwys yn y papur hwn.

Camau nesaf

Bydd eich ymatebion i'r ddogfen hon yn ein cynorthwyo i benderfynnu ar nodweddion angenrheidiol cyrsiau addysg a hyfforddiant cychwynnol ar gyfer y tîm fferyllol a'i aelodau. Bydd hyn, yn ei dro, yn ein cynorthwyo i ddrafftio safonau diwygiedig. Byddwn yn cynnal ymgynhoriad cyhoeddus ar y rhain yn ddiweddarach.

Dywedwch wrthym beth yw eich barn drwy fynd i www.pharmacyregulation.org/educationstandards ac ymateb erbyn **14 Awst 2015**.

Gallwch hefyd ymuno yn y drafodaeth ar Twitter gan ddefnyddio **#pharmed**

Cyfeiriadau

1 Polisi iechyd cenedlaethol

2020 vision for health and social care
(GIG Yr Alban /Llywodraeth yr Alban, 2011)

NHS England 5-year forward view
(GIG Lloegr, 2014)

Law yn Llaw at Iechyd
(Llywodraeth Cymru, 2011)

2 Polisi fferyllol cenedlaethol

Now or never, shaping pharmacy for the future
(Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, 2013)

*Pharmacy in England, building on strengths,
delivering the future* (Yr Adran Iechyd, Lloegr, 2008)

*Prescription for excellence, a vision and action
plan for the right pharmaceutical care through
integrated partnerships and innovation*
(Llywodraeth yr Alban, 2013)

*Rebalancing Medicines Legislation and Pharmacy
Regulation Programme Board* (Yr Adran Iechyd,
2014, www.gov.uk)

3 Safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol

*Future pharmacists, standards for the initial
education and training of pharmacists*
(CFfC, 2011)

*Pharmacist independent prescribing – Learning
outcomes and indicative content*
(CFfC, 2010)

*Policy on minimum training requirements for
dispensing / pharmacy assistants and medicines
counter assistants*
(CFfC, 2011)

*Standards for the initial education and training of
pharmacy technicians*
(CFfC, 2010)

4 Dogfennau eraill

Arolwg Cofrestredigion CFfC 2013
(www.pharmacyregulation.org/registrant-survey-2013)

**Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol**

**25 Canada Square,
London
E14 5LQ**


T: 020 3713 8000

W: pharmacyregulation.org

E: info@pharmacyregulation.org

 @TheGPhC

 [Facebook.com/TheGPhC](https://www.facebook.com/TheGPhC)

 [LinkedIn.com/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)